**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2005 Rhif 1812 (Cy.142)

## PRIFFYRDD, CYMRU

# Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi ffurf y cofnodion o gyfarpar a roddir mewn strydoedd y mae ymgymerwyr i'w cadw yn unol â darpariaethau adran 79 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru. Maent yn darparu bod rhaid cadw'r cofnodion hynny ar ffurf map lleoliad neu fap o'r llwybr neu ddatganiad o'r cyfesurynnau, a chânt fod un ai ar bapur, ar ffurf cofnod electronig neu gyfuniad o'r ddau (rheoliad 3). Maent yn gwneud darpariaethau ar ddefnyddio cofnodion electronig (rheoliad 4). Rhagnodir eithriadau i'r ddyletswydd i gadw cofnod mewn rhai achosion (rheoliad 5).

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2005 No. 1812 (W.142)

## HIGHWAYS, WALES

# The Street Works (Records) (Wales) Regulations 2005

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations prescribe the form of records of apparatus placed in streets to be kept by undertakers in accordance with the provisions of section 79 of the New Roads and Street Works Act 1991. These Regulations apply in relation to Wales. They provide that such records must be in the form of a location or route map or a statement of co-ordinates and may be either on paper or in the form of an electronic record or a combination of both (regulation 3). They make provisions on the use of electronic records (regulation 4). Exceptions to the duty to keep a record are prescribed in certain cases (regulation 5).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 1812 (Cy.142)

## PRIFFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *5 Gorffennaf 2005* |
| *Yn dod i rym* | *1 Rhagfyr 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 79 a 104(1) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol o ran Cymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 1 Rhagfyr 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn:

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991;

ystyr "gwaith brys" ("*urgent works*") yw gwaith stryd, ar wahân i waith mewn argyfwng, y mae'n ofynnol ei gyflawni ar yr adeg y mae'n cael ei gyflawni (neu y mae'r person sy'n gyfrifol am y gwaith yn credu ar sail resymol ei fod yn ofynnol):-

-er mwyn osgoi neu roi terfyn ar unrhyw ymyriad annisgwyl ag unrhyw gyflenwad neu wasanaeth y mae'r ymgymerwr yn ei ddarparu; neu

-er mwyn osgoi colled sylweddol i'r ymgymerwr o ran gwasanaeth sy'n bodoli eisoes; neu

-er mwyn ailgysylltu cyflenwadau neu wasanaethau pan fyddai'r ymgymerwr o dan atebolrwydd sifil neu droseddol pe câi'r ailgysylltu ei oedi hyd nes ar ôl i'r cyfnod hysbysu priodol ddod i ben;

(1) 1991 p.22.

(2) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/ 672).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 1812 (W.142)

## HIGHWAYS, WALES

## Street Works (Records) (Wales) Regulations 2005

| | |
|---|---|
| *Made* | *5 July 2005* |
| *Coming into force* | *1 December 2005* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon the Secretary for State by sections 79 and 104(1) of the New Roads and Street Works Act 1991(**1**) and which are now exercisable by the National Assembly in relation to Wales(**2**), hereby makes the following Regulations:

**Title, commencement and application**

**1**.-(1) The title of these Regulations is the Street Works (Records) (Wales) Regulations 2005 and they come into force on 1 December 2005.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Interpretation**

**2**. In these Regulations:

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the New Roads and Street Works Act 1991;

"a geographical information system" ("*systemau gwybodaeth daearyddol*") means a computer system for capturing, storing, checking, integrating, manipulating, analysing and displaying data related to spatial locations;

"service pipes and lines" ("*pibellau a llinellau cyswllt*") means apparatus of any length of a description contained in paragraph 7(3)(a), (b) or (c) of Schedule 4 to the Act;

"urgent works" ("*gwaith brys*") means street works, other than emergency works, whose execution at the time they are executed is required (or which the person responsible for the works believes on reasonable grounds to be required):-

-to prevent or put an end to an unplanned

(1) 1991 c.22.

(2) The powers of the Secretary of State, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/ 672).

ac y mae'n cynnwys gwaith na ellir yn rhesymol ei wahanu o'r fath waith;

ystyr "pibellau a llinellau cyswllt" ("*service pipes and lines*") yw cyfarpar o unrhyw hyd sy'n cyfateb i un o'r disgrifiadau a geir ym mharagraff 7(3)(a), (b) neu (c) o Atodlen 4 i'r Ddeddf; ac

ystyr "system gwybodaeth ddaearyddol" (*"a geographical information system*") yw system gyfrifiadurol sy'n cipio, storio, gwirio, integreiddio, trin, dadansoddi ac arddangos data sy'n ymwneud â lleoliadau gofodol.

**Ffurf y cofnodion a dull eu cofnodi**

**3**.-(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 5, rhaid i ymgymerwr gofnodi bob eitem o gyfarpar sy'n perthyn iddo ac sy'n cael ei rhoi yn y stryd a'i chofnodi ar bapur, neu, yn ddarostyngedig i reoliad 4, ar ffurf cofnod electronig neu gyfuniad o'r ddau, a rhaid i'r cofnod gael ei baratoi ar ffurf :

(a) map o'r lleoliad neu'r llwybr wedi'i gofnodi ar gefndir map, sydd:

(i) yn ymwneud â Grid Cenedlaethol yr Arolwg Ordnans, yn ddarostyngedig i baragraff (2); a

(ii) wedi'i baratoi hyd at lefel o gywirdeb sy'n cyfateb o leiaf i raddfa map gan yr Arolwg Ordnans sydd agosaf at raddfa'r cefndir map hwnnw; neu

(iii) datganiad o gyfesurynnau'r Grid Cenedlaethol sy'n deillio o system wybodaeth ddaearyddol.

(2) Dim ond i gofnodi'r map o'r lleoliad neu'r llwybr am gyfnod heb fod yn fwy na phum mlynedd o'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym ("y cyfnod trosiannol") y caniateir defnyddio Mapio Cyfres Siroedd yr Arolwg Ordnans, a rhaid trosglwyddo cofnodion sy'n cael eu gwneud yn y modd hwn i un o'r ffurfiau eraill a ragnodir gan baragraff (1) erbyn diwedd y cyfnod trosiannol fan bellaf.

(3) Wrth baratoi'r cofnod, rhaid cofnodi'r map o leoliad a llwybr y cyfarpar fel y bydd y safle a fesurwyd o fewn 300mm i'r gwir safle, a bydd y safle a gofnodwyd o fewn 500mm i'r gwir safle.

**Cofnodion Electronig**

**4**. Pan fo cofnod electronig yn cael ei gadw, yn unol â rheoliad 3 uchod, rhaid bod modd ei atgynhyrchu ar ffurf sy'n ddigon darllenadwy i gydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir gan adran 79(3) o'r Ddeddf (dyletswydd i roi cofnodion ar gael i'w harchwilio).

**Eithriadau**

**5**. Ni fydd y ddyletswydd yn adran 79(1) o'r Ddeddf i gadw cofnod o leoliad pob eitem o gyfarpar yn gymwys:-

interruption of any supply or service provided by the undertaker; or

-to avoid substantial loss to the undertaker in relation to an existing service; or

-to reconnect supplies or services where the undertaker would be under a civil or criminal liability if the reconnection is delayed until after the expiration of the appropriate notice period;

and includes works which cannot reasonably be severed from such works.

**Form and manner of records**

**3**.-(1) Subject to regulation 5, a record of every item of apparatus belonging to an undertaker and placed in the street must be kept by that undertaker on paper, or, subject to regulation 4, in the form of an electronic record or a combination of both, and must be prepared in the form of :

(a) a location or route map recorded on a map background, which is:

(i) related to the Ordnance Survey National Grid, subject to paragraph (2); and

(ii) prepared to an accuracy at least equivalent to the scale of an Ordnance Survey map which is nearest to the scale of that map background; or

(b) a statement of National Grid co-ordinates derived from a geographical information system.

(2) Ordnance Survey County Series Mapping may only be used to record the location or route map for a period not exceeding five years from the date on which these Regulations come into force (the "transitional period"), and records made in this way must be transferred into one of the other forms prescribed by paragraph (1) by no later than the end of the transitional period.

(3) In preparing the record, the location and route of the apparatus must be recorded so that the measured position is within 300mm of the actual position and the recorded position is within 500mm of the actual position.

**Electronic Records**

**4**. Where an electronic record is kept pursuant to regulation 3 above, it must be capable of being reproduced in a sufficiently legible form to comply with the duty imposed by section 79(3) of the Act (duty to make records available for inspection).

**Exceptions**

**5**. The duty in section 79(1) of the Act to keep a record of the location of every item of apparatus will not apply:-

(a) pan fyddai cydymffurfio yn arwain at ddatgelu'r mathau canlynol o wybodaeth gyfyngedig:

(i) gwybodaeth a ardystiwyd gan awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol neu gyda'i awdurdod ef ei bod yn wybodaeth gyfyngedig er lles diogelwch y wlad;

(ii) gwybodaeth a ardystiwyd gan awdurdod ymgymerwr neu gyda'i awdurdod ef ei bod yn wybodaeth gyfyngedig yn unol â buddiannau masnachol yr ymgymerwr;

(b) i unrhyw gyfarpar a roddwyd gan ymgymerwr yn y stryd o fewn ei gyfarpar presennol lle y cofnodwyd lleoliad y cyfarpar presennol yn barod ar ffurf a ragnodir gan reoliad 3;

(c) i unrhyw gyfarpar a roddwyd ar y stryd cyn y dyddiad y daeth y Rheoliadau hyn i rym;

(ch) i unrhyw gyfarpar sy'n perthyn i ymgymerwr ac y mae'n dod o hyd iddo yn y stryd yn ystod gwaith mewn argyfwng neu waith brys y mae ef yn ei wneud;

(d) i unrhyw gyfarpar sydd heb ei osod dan ddaear; a

(dd) i bibellau a llinellau cyswllt.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**)

5 Gorffennaf 2005

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(1) 1998 p.38

(a) where compliance would lead to the disclosure of the following types of restricted information:

(i) information certified by or with the authority of the Secretary of State as being restricted information in the interest of national security;

(ii) information certified by or with the authorisation of an undertaker as being restricted information in accordance with the commercial interests of the undertaker;

(b) to any apparatus placed by an undertaker in the street within its existing apparatus where the location of the existing apparatus has already been recorded in a form prescribed by regulation 3;

(c) to any apparatus placed in the street prior to the date on which these Regulations came into force;

(d) to any apparatus belonging to an undertaker which is discovered by him in the street during the course of emergency works or urgent works carried out by him;

(e) to any apparatus not installed underground; and

(f) to service pipes and lines.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**)

5 July 2005

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) 1998 c.38

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091165-2

9 780110 911656

**£3.00**

W118/7/05 ON